



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Cyllideb Atodol 2021-2022 Nodyn Esboniadol

Chwefror 2022

llyw.cymru

Cynnwys

| | |
|---|-----------|
| 1. Cyflwyniad | 2 |
| 2. Dyraniadau Allweddol | 3 |
| 3. Newidiadau i Gyllideb Cymru ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 36 |
| 4. Trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion | 46 |
| 5. Trosglwyddiadau o fewn Portffolios y Gweinidogion | 48 |
| 6. Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn | 52 |
| 7. Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) | 70 |
| | 70 |
| Atodiad 1 – Cysoni rhwng Cyllidebau'r Portffolios yn Nhablau'r Camau Gweithredu a'r rhai yng Nghynnig y Gyllideb | 72 |
| Atodiad 2 – Geirfa | 74 |

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y ddogfen hon cysylltwch â:
wag-en@mailuk.custhelp.com

1. Cyflwyniad

- 1.1** Heddiw, cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r ail gyllideb atodol ar gyfer 2021-22, yn unol â Rheol Sefydlog 20. Mae'r gyllideb atodol hon yn cynnig newidiadau i'r gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2021-22 fel y'i cymeradwywyd gan Senedd Cymru ('y Senedd') ar 13 Gorffennaf 2021.
- 1.2** Mae'r gyllideb atodol hon yn rheoleiddio dyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac oddi wrthynt, trosglwyddiadau o fewn a rhwng portffolios. Mae hefyd yn cynnwys addasiadau i gyllideb Cymru i adlewyrchu effaith digwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU.
- 1.3** Adlewyrchir effaith ariannol barhaus pandemig y coronafeirws o fewn y gyllideb atodol hon ac mae'r holl ddyraniadau allweddol wedi'u nodi'n fanwl ym Mhennod 2.
- 1.4** Mae'r ddogfen hon yn ategu'r 'Tablau Llinellau Gwariant y Gyllideb (BEL)' manwl sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

2. Dyraniadau Allweddol

Dyraniadau COVID-19 o Gronfeydd wrth Gefn

2.1 Mae'r pandemig COVID-19 parhaus ac effeithiau'r amrywiolyn Omicron yn parhau i gael effaith ar ein bywydau a'n cymunedau, gyda chyfyngiadau a mesurau pellach ar waith i liniaru effeithiau niferoedd cynyddol o achosion, yn enwedig ar ein GIG dros fisoedd y gaeaf pan deimlir pwysau tymhorol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn a pharhau i gefnogi economi Cymru a sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn gallu parhau i ddelio â heriau eang y pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu **£1.4bn** ychwanegol o'r Gronfa wrth Gefn ar gyfer dyraniadau i ymateb i COVID-19 yn y gyllideb atodol hon. Mae hyn yn golygu ein bod wedi dyrannu mwy na **£8.4bn** ers dechrau'r pandemig i liniaru ei effaith.

2.2 Mae'r dyraniadau COVID-19 o dan bedair thema eang ***lechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus, Cefnogi'r Economi, Trafnidiaeth*** a'r ***Trydydd Sector a Chymunedau***. Nid yw'r holl ddyraniadau COVID-19 yn rhai cylchol yn 2022-2023.

2.3 Rydym wedi ymateb gyda chymorth i ystod mor eang o faterion fel bod thema ***lechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus*** wedi'i threfnu ymhellach i ddangos y mesurau yr ydym wedi'u cymryd yn y meysydd canlynol o fewn y thema:

- lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Llywodraeth Leol
- Cymorth i Aelwydydd
- Addysg
- Plant a Theuluoedd

Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus

| Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus | | |
|--|---|--|
| <i>Is-bennawd</i> | <i>Dyraniadau COVID-19 o Gronfeydd wrth Gefn</i> | <i>Cyfanswm</i> |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Cymorth Iechyd ac Adferiad | £551m |
| | Adferiad Gofal Cymdeithasol | £140.72m |
| Llywodraeth Leol | Y Gronfa Galedi i Awdurdodau Lleol | £135.5m |
| | Cymorth Setliad Llywodraeth Leol | £50m |
| | Cymorth reffeniw'r dreth gyngor | £19.3m |
| Cymorth i Aelwydydd | Cymorth i Aelwydydd a Chymorth Tanwydd Gaeaf | £74.724m |
| | Cymorth i Aelwydydd – Cynllun Lesio | £0.262m o reffeniw £0.17m o gyfalaf |
| | Y Grant Caledi i Denantiaid | £8m |
| Addysg | Mesurau Addysg Bellach (AB) | £45.224m |
| | Adferiad dysgwyr mewn ysgolion gan gynnwys y Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau | £33m |
| | Cyfrifon Dysgu Personol | £10m |
| | Cymorth i ddysgwyr mewn blynyddoedd arholiadau | £9.594m |
| | Gweithgarwch pontio Dysgwyr Ôl-16 | £6.27m |
| | Athrawon Newydd Gymhwyso | £5.38m |
| | Synwryddion CO2 a gwelliannau i awyru | £5.89m o gyfalaf |
| | Y Gymraeg (Cymraeg 2050) | £2.4m |
| | Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol | £1.744m |
| | Anghenion Dysgu Ychwanegol | £10m |
| | Trosglwyddo Gwybodaeth ym maes Addysg Bellach | £2.862m |
| Plant a Theuluoedd | Pecyn o gymorth lles | £36.6m |
| | Rhaglen Cymorth Cynnar | £7m |
| | Y Gronfa Datblygiad Plant | £4.5m |
| | Cymorth Iechyd Meddwl Gwaith Ieuenctid | £2.5m |
| Ymchwiliad COVID-19 | Gwaith paratoi ymchwiliad COVID-19 | £1.130m |
| | | <u>£1,163.770m</u> |

Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

- **Cymorth Iechyd ac Adferiad - £551m**

2.4 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith enfawr ar y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mewn ymateb i'r pwysau y mae hyn yn ei achosi, [rydym wedi parhau i gefnogi'r GIG gyda phecyn o fesurau](#) yn y gyllideb atodol hon i helpu nid yn unig gyda chostau sylweddol delio â'r pandemig a chynyddu capasiti yn ein hysbytai, ond hefyd i helpu'r GIG i symud ymlaen y tu hwnt i'r pandemig.

2.5 O fewn y pecyn hwn, gwnaethom ddyrannu:

- **£411m** ar gyfer costau parhaus delio â'r pandemig tan fis Ebrill 2022. Mae hyn yn cynnwys y rhaglen frechu, profi, cyfarpar diogelu personol, a safonau glanhau newydd ar gyfer rheoli heintiau.
- **£100m** i helpu cynlluniau adfer byrddau iechyd, gan gynnwys cyflymu triniaeth ar gyfer y rhai sydd wedi bod yn aros hiraf.
- **£40m** o gyfalaf ar gyfer cyfarpar ac addasu ysbytai ac adeiladau eraill i gynyddu'r capasiti ar gyfer triniaethau arferol, gan gynnal ardaloedd diogel rhag COVID.
- **Adferiad Gofal Cymdeithasol - £140.72m**

2.6 Mae'r pandemig yn parhau i gyflwyno heriau i faes gofal cymdeithasol. Mae awdurdodau lleol yn wynebu pwysau yn y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a phlant, gyda'r pandemig yn tynnu sylw at lawer o'r materion a oedd yn bodoli eisoes sy'n wynebu gofal cymdeithasol, gan gynnwys mwy o alw, pwysau ariannol a heriau'r gweithlu. Mewn ymateb i hyn rydym wedi dyrannu:

2.7 **£50m** tuag at orwariant amcanestynedig awdurdodau lleol a chynlluniau ar gyfer pwysau'r gaeaf ac ymateb iddo.

Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (parhad)

- 2.8** £40m i [sefydlu Cronfa Adfer Gofal Cymdeithasol](#). Gwnaed dyraniadau i bob awdurdod lleol i awdurdodau wario, gyda phartneriaid, ar weithgarwch adfer gofal cymdeithasol yn unol â'r blaenoriaethau a nodir yn y [Fframwaith ar gyfer Adferiad Gofal Cymdeithasol](#).
- 2.9** £8m i ariannu nifer o [weithgareddau adfer gofal cymdeithasol](#) penodol, gan gynnwys ymestyn y gronfa cymorth i ofalwyr; mynd i'r afael ag unigrwydd ymhlith pobl hŷn; buddsoddi yn lles y gweithlu gofal cymdeithasol ac mewn gwasanaethau preswyl i blant â phrofiad o fod mewn gofal.
- 2.10** £42.72m i [helpu i fynd i'r afael â phwysau ar y system gofal cymdeithasol](#) gyda chyfres o fesurau gan gynnwys cymorth ariannol i ofalwyr di-dâl, y trydydd sector a chlystyrau, ymatebion integredig drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gan gynnwys microfentrau, mesurau ar gyfer Gwasanaethau i Blant, a gwaith pellach yn y cyfryngau a hysbysebu i ddenu a chadw staff.

Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus: Llywodraeth Leol

- **Y Gronfa Galedi i Awdurdodau Lleol - £135.5m**

2.11 Gwnaethom sefydlu'r Gronfa Galedi i Lywodraeth Leol ar ddechrau'r pandemig i gydnabod rôl ehangach awdurdodau lleol yn y gymuned yn ystod yr argyfwng, a'r costau cynyddol anocheol a cholli incwm o ganlyniad i'r camau angenrheidiol a gymerwyd i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Gronfa yn cefnogi costau ychwanegol a cholli incwm ac yn cwmpasu'r holl wasanaethau wrth ddarparu gofal cymdeithasol, addysg a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol eraill yn y gymuned. Mae'r pandemig yn parhau i fod yn ansicr a chydag ymddangosiad yr amrywiolyn Omicron rhoddwyd cyfyngiadau ychwanegol ar waith. Dyranwyd arian ychwanegol i'r gronfa galedi i gefnogi awdurdodau lleol gydag effaith y cyfyngiadau hyn.

2.12 Yn y gyllideb atodol hon, gwnaed y dyraniadau canlynol i'r Gronfa:

- **£50m** i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer darparu gwasanaethau hanfodol a cholli incwm hyd at 31 Mawrth 2022;
- **£46m** i gydnabod y costau ychwanegol a cholli incwm i awdurdodau lleol o ganlyniad i effaith yr amrywiolyn Omicron;
- **£25.5m** i gefnogi'r gwaith o ddarparu Gofal Cymdeithasol i Oedolion yng Nghymru i gynnal lefelau priodol o ofal i dderbynwyr, helpu'r ymateb i'r pandemig, ac i gefnogi'r broses o adfer gwasanaethau;
- **£10m** i gynnal yr ymateb brys i ddigartrefedd i 31 Mawrth 2022 a sicrhau nad oes neb yn cael ei adael heb lety, ynghyd â'r cymorth sydd ei angen arnynt i gadw'n ddiogel yn ystod y pandemig;
- **£4m** ar gyfer [ymestyn y cynllun taliadau hunanynysu](#) hyd at 31 Mawrth 2022 i gefnogi pobl y gwnaeth gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru ddweud wrthynt am ynysu, ond a allai brofi caledi ariannol o ganlyniad i orfod aros gartref a cholli gwaith.

Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus: Llywodraeth Leol (parhad)

- Cymorth setliad Llywodraeth Leol

2.13 Rydym yn dyrannu **£50m** o gyllid refeniw ychwanegol i gefnogi awdurdodau lleol ymhellach i reoli'r pwysau y maent yn eu hwynebu yn sgil effeithiau'r pandemig.

- Cymorth refeniw treth gyngor

2.14 Mae'r pandemig wedi parhau i effeithio ar allu awdurdodau lleol i gasglu'r dreth gyngor, gan arwain at ostyngiad a gofnodwyd yn y refeniw a gasglwyd gan awdurdodau lleol i gefnogi gwasanaethau lleol a gweithrediadau o ddydd i ddydd. Dyrennir **£19.3m** i liniaru effaith gostyngiadau o ran casglu'r dreth gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-2022.

Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus: Cymorth i Aelwydydd

- Cymorth i Aelwydydd a Chymorth Tanwydd Gaeaf - £74.724m

2.15 Er mwyn [cefnogi pobl yng Nghymru gyda'r argyfwng costau byw](#) y mae teuluoedd yn ei wynebu, rydym yn darparu ystod o fesurau sydd â'r nod o helpu aelwydydd incwm isel i ddelio â'r pwysau uniongyrchol ar gostau byw y gaeaf hwn a lleihau effaith y toriad i Gredyd Cynhwysol, Credyd Treth Gwaith a chost gynyddol ynni. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- **£61.082m** ar gyfer [Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf](#) i gefnogi teuluoedd yn uniongyrchol i dalu am eu costau ynni a chadw eu cartrefi'n gynnes y gaeaf hwn. Gall aelwydydd cymwys sy'n derbyn budd-daliadau lles sy'n dibynnu ar brawf modd, o oedran gweithio, hawlio taliad arian parod untro o £200 i roi cymorth tuag at dalu eu biliau tanwydd gaeaf;
- **£0.89m** o gyfalaf a **£0.234m** o refeniw ar gyfer cynllun peilot Trafnidiaeth Gymunedol Cymoedd y Gorllewin i ddarparu cymorth rhanbarthol i ddarparwyr trafndiaeth gymunedol;
- Hyd at **£4.29m** i gefnogi'r gwaith paratoi ar gyfer ymestyn prydau ysgol am ddim i ddisgyblion ysgolion cynradd yng Nghymru;
- **£4m** i gynorthwyo teuluoedd gyda chostau'r diwrnod ysgol. Mae'r dyraniad hwn yn cael ei ddefnyddio i ymestyn y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad i bob disgybl cymwys ym mhob blwyddyn ysgol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, gan gynyddu'r cyllid ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad i bron i £13m yn 2021-22;
- **£2m** i gefnogi awdurdodau lleol gyda gweithgarwch dewisol, gyda'r nod o atal neu liniaru digartrefedd, na ellir ei ariannu drwy raglenni grant neu gronfeydd lles eraill;

Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus: Cymorth i Aelwydydd (parhad)

- **£0.6m** i ymestyn cynllun peilot Canolfannau Cymorth Cymunedol COVID-19 tan 31 Mawrth 2022 ac i gyflwyno'r canolfannau ar draws ardaloedd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru;
- **£0.588m** o gyfalaf a **£0.57m** o refeniw i gefnogi sefydliadau bwyd cymunedol ac i gefnogi cynllun peilot y Big Bocs Bwyd;
- **£0.25m** ar gyfer cynlluniau cymorth Trafnidiaeth Gyhoeddus i geiswyr lloches sydd ar fin dechrau cynllun peilot tymor byr a fydd yn darparu teithio am ddim ar fysiau i geiswyr lloches sy'n byw yng Nghymru;
- **£0.15m** ar gyfer ymestyn y ganolfan gyswllt fflecsi, gan fod hwn yn gynllun Trafnidiaeth mae'r dyraniad yn y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Newid Hinsawdd;
- **£0.06m** i gefnogi'r ymgyrch marchnata credyd fforddiadwy i hyrwyddo undebau credyd fel prif ddarparwyr credyd fforddiadwy yng Nghymru;
- **£0.01m** ar gyfer Prosiect Cymunedol Roma a datblygu Grŵp Cymorth Roma.

- **Cymorth i Aelwydydd – Cynllun Lesio**

2.16 Dyrennir **£0.262m** o refeniw a **£0.17m** o gyfalaf i'r awdurdodau lleol yn y cynllun peilot i fwrw ymlaen â cham cyntaf Cynllun Lesio Sector Preifat Cymru. O dan y cynllun gall y rhai ar incwm isel gael mynediad at lety hirdymor o ansawdd da yn y Sector Rhentu Preifat am gost fforddiadwy.

- **Y Grant Caledi i Denantiaid**

2.17 Gwyddom unwaith y bydd rhywun ar ei hôl hi gyda'u rhent, y gall fod yn fwyfwy anodd iddynt ddal i fyny heb gymorth. Rydym yn dyrannu **£8m** i helpu pobl mewn llety rhent preifat sy'n ei chael hi'n anodd talu eu rhent oherwydd y pandemig. Mae'r grant wedi'i gynllunio i helpu pobl i aros yn eu cartrefi a'u hatal rhag colli eu tenantiaethau.

Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus: Addysg

- Mesurau AB - £45.224m

2.18 Rydym yn cydnabod bod y pandemig wedi parhau i darfu ar ddysgwyr, a'r angen i ddarparu ar gyfer adferiad ac addasu. Rydym yn cefnogi'r sector addysg drwy ddyrannu **£45.224m** ar gyfer amrywiaeth o fesurau a gweithgareddau i helpu sefydliadau i reoli effeithiau'r pandemig a blaenoriaethau cenedlaethol eraill. Mae hyn yn cynnwys:

- **£19.225m** a **£7m** ar gyfer cynnal a chadw a chyfarpar digidol a gwyrdd, er mwyn sicrhau bod y cynnig i ddysgwyr yn cyd-fynd â'r galw economaidd;
- **£8.129m** i gefnogi costau darparu i ddysgwyr mewn amgylchedd diogel a chynnal gwasanaethau i ddysgwyr er mwyn sicrhau nad effeithir ymhellach ar y dysgwyr sydd dan yr anfantais fwyaf;
- **£3m** i gynyddu'r cymorth i'r rhaglen Adnewyddu a Diwygio i reoli effeithiau'r pandemig;
- **£2m** ar gyfer dylunio a chyflwyno modiwl e-ddysgu Carbon Sero Net ar gyfer pob dysgwr lefel 3 galwedigaethol;
- **£1.665m** ar gyfer costau cynyddol defnyddiau traul a ddefnyddir wrth ddarparu rhaglenni dysgu galwedigaethol; a
- **£3.7m** ar gyfer costau glanhau uwch i leihau risgiau trosglwyddo a **£0.505m** i ganiatáu i golegau gynnal yr hyn sy'n cyfateb i Brydau Ysgol am Ddim.

Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus: Addysg (parhad)

- Adferiad Dysgwyr

2.19 Rydym wedi dyrannu **£33m** o gyllid ychwanegol ar gyfer y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau i alluogi ysgolion i gefnogi adferiad dysgwyr i fynd i'r afael ag effeithiau COVID-19 a buddsoddi mewn adnoddau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd.

- Cyfrifon Dysgu Personol

2.20 Rydym yn cefnogi [Cyfrifon Dysgu Personol](#) gyda dyraniad o **£10m** o'r gronfa wrth gefn i roi hwb i Gyfrifon Dysgu Personol poblogaidd Cymru. Bydd hyn yn galluogi colegau addysg bellach i ddarparu cyrsiau a chymwysterau ychwanegol a fydd yn helpu 2,000 o bobl i fanteisio ar ystod ehangach o gyfleoedd ar gyfer swyddi ac ennill cyflog mewn sectorau â blaenoriaeth, fel y GIG a lletygarwch sy'n wynebu prinder llafur.

- Cymorth i ddysgwyr mewn blynyddoedd arholiadau - £9.594m

2.21 Rydym am sicrhau bod pob person ifanc mewn blynyddoedd cymwysterau yn gallu cael gafael ar gymorth neu gyngor ymarferol i'w helpu fel y gallant edrych ymlaen at gam nesaf eu bywyd, boed hynny mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Rydym yn dyrannu **£6m** fel cyllid ychwanegol i gefnogi addysgu a dysgu dysgwyr mewn blynyddoedd cymwysterau, yn enwedig mewn cymwysterau craidd fel Mathemateg a Saesneg sy'n bwysig o ran cynnydd ac sy'n helpu i fagu hyder a lles dysgwyr, yn ogystal ag i gefnogi'r rhai sy'n teimlo'n bryderus am arholiadau.

2.22 Darparwyd **£3.594m** i gefnogi'r gwaith o adfer dysgu a darparu trefniadau amgen ar gyfer cymwysterau a gymerwyd yn 2021. Mae'r dyraniad hefyd yn ariannu gwerthusiad allanol o'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau.

Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus: Addysg (parhad)

- **Gweithgarwch Pontio Dysgwyr Ôl-16**

2.23 Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu symud yn hyderus i'w camau nesaf er gwaetha'r tarfu yn sgil y pandemig. Rydym yn dyrannu **£6.27m** i'w cefnogi i bontio i gam nesaf eu haddysg neu eu gyrfaeodd. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau fel sesiynau blasu ar gyfer gyrfaeodd galwedigaethol a diwrnodau agored i roi cyfle iddynt ddeall a threialu amrywiaeth o lwybrau dilyniant.

- **Athrawon Newydd Gymhwyso**

2.24 Wrth i'r pandemig amharu ar addysg, colodd llawer o athrawon dan hyfforddiant ledled Cymru y cyfle i fagu profiad drwy hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth. Fel rhan o'r Gyllideb Atodol Gyntaf, gwnaethom ddyrannu £6m i sicrhau bod gan athrawon newydd gymhwyso (ANG) dymor o gyflogaeth i gefnogi'r broses o bontio i addysgu. Mae'r **£5.38m** ychwanegol hwn wedi ein galluogi i ymestyn y gyflogaeth i gyfanswm o ddau dymor, gan fynd â chyfanswm y cyllid i dros £11m yn 2021-2022.

- **Synwryddion CO2 a gwelliannau i awyru**

2.25 Rydym wedi darparu **£5.89m** o gyllid cyfalaf ar gyfer synwryddion Carbon Deuocsid (CO2) a gwelliannau i awyru i gefnogi'r gwaith o gyflwyno monitorau CO2 ar gyfer ysgolion, colegau a phrifysgolion.

- **Y Gymraeg (Cymraeg 2050)**

2.26 Dyrannwyd **£2.4m** i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein strategaeth genedlaethol bum mlynedd [Rhaglen Waith ar gyfer Cymraeg 2050](#). Bydd £2.2m o'r dyraniad hwn ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth drochi hwyr sy'n helpu dysgwyr sy'n mynd i addysg cyfrwng Cymraeg yn ddiweddarach (fel arfer ar ôl saith oed) a disgyblion nad yw'r Gymraeg wedi bod yn rhan o'u trefn ddyddiol o bosibl, i feithrin y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen i barhau â'u dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yn cyfrannu at y nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac yn cynyddu'r defnydd dyddiol o'n hiaith. Bydd y £0.2m sy'n weddill yn cefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol i adfer yn dilyn effaith COVID-19.

Iechyd a Gwasanaeth Cyhoeddus: Addysg (parhad)

- Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol

2.27 Darparwyd **£1.744m** i gefnogi gwaith y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol (NSERE). Mae hyn yn cynnwys adolygiadau tystiolaeth ar effaith y pandemig ar agweddau ar y system addysg, a'r goblygiadau i'r rhaglen Adnewyddu a Diwygio, yn ogystal â rhaglen ymchwil i gasglu tystiolaeth empirig gadarn ar effaith y pandemig ar les a chynnydd addysgol dysgwyr.

- Trosglwyddo Gwybodaeth ym maes Addysg Bellach

2.28 Dyrannwyd **£2.862m** i gefnogi Cynllun Trosglwyddo Gwybodaeth wedi'i anelu at golegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith annibynnol i ariannu'r gwaith o ddarparu dosbarthiadau meistr neu brosiectau ymchwil a gynlluniwyd i sbarduno a meithrin arbenigedd staff. Bydd hyn yn cynyddu gwybodaeth a phrofiad dysgu'r dysgwr mewn pynciau fel y maes digidol, sgiliau gwyrdd, ôl-osod ym maes adeiladu a pheirianeg.

- Anghenion Dysgu Ychwanegol

2.29 Mae effaith COVID-19 yn effeithio ar bob dysgwr, ond mae'n effeithio'n anghymesur ar ddysgwyr agored i niwed a dysgwyr dan anfantais, yn enwedig plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Drwy ddarparu adnoddau ychwanegol i gefnogi dysgwyr ag ADY i adfer yn sgil effeithiau'r pandemig, gallwn leihau'r tebygolrwydd o effeithiau hirdymor a/neu gydol oes ar eu haddysg, eu sgiliau, eu hiechyd a'u lles.

2.30 Rydym wedi darparu **£10m** ar gyfer cymorth wedi'i dargedu ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY sydd wedi bod dan anfantais bellach oherwydd y pandemig.

lechyd a Gwasanaeth Cyhoeddus: Plant a Theuluoedd

2.31 Rydym yn parhau i roi hawliau plant wrth wraidd ein hymateb i'r pandemig, gan ddarparu cymorth a chyfleoedd i blant a theuluoedd yn eu lleoliadau cymunedol, gofal plant, chwarae ac addysg. Dyrannwyd [pecyn o gymorth lles gwerth £36.6m](#) i gefnogi teuluoedd a phlant i adfer o'r pandemig. Wedi'i ddyrannu drwy awdurdodau lleol mae'n cynnwys:

- **£11.638m** o gyllid cyfalaf i gefnogi ein lleoliadau gofal plant a chwarae, gan gynnwys Dechrau'n Deg;
- **£5m** o gyfalaf i gefnogi mwy o gyfleoedd chwarae yn unol â chynlluniau gweithredu asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae; ac
- **£20m** i gefnogi'r ymrwymadau a nodir yn [Adnewyddu a Diwygio](#) (sy'n cynnwys £11.45m, £6.3m, £2.25m i'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg a'r Gymraeg, MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a MEG yr Economi yn y drefn honno). Fe'i dyrennir i adeiladu ar lwyddiant prosiectau fel Haf o Hwyl, gan ddarparu mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc 0-25 oed ddatblygu eu lles cymdeithasol, emosiynol a chorfforol. Bydd £2.3m yn cefnogi gweithgareddau sy'n cael eu datblygu gan ein hamgueddfeydd, ein llyfrgelloedd, Chwaraeon Cymru a'u partneriaid cenedlaethol, ac Urdd Gobaith Cymru, gan alluogi'r gwaith o ddarparu gweithgareddau mewn amrywiaeth o leoliadau ac ar gyfer pob oedran a gallu.

- **Rhaglen Cymorth Cynnar**

2.32 Dyrannwyd **£7m** ar gyfer mentrau i gefnogi gwasanaethau a darpariaeth blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae ac i gynorthwyo gydag effaith tymor byr y pandemig ar y gwasanaethau hyn.

Iechyd a Gwasanaeth Cyhoeddus: Plant a Theuluoedd (parhad)

- **Y Gronfa Datblygiad Plant**

2.33 Rydym wedi darparu **£4.5m** ar gyfer parhau â'r Gronfa Datblygiad Plant i awdurdodau lleol i ddarparu cymorth datblygiadol ychwanegol ac adeiladu ar y dulliau a welwyd hyd yma mewn meysydd gan gynnwys oedi o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu; oedi o ran sgiliau echddygol manwl a bras; a datblygiad personol a chymdeithasol.

- **Cymorth Iechyd Meddwl Gwaith Ieuenctid**

2.34 [Darperir £2.5m i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cymorth Ieuenctid](#) i weithio gyda'r sector gwirfoddol a chyrraedd ystod ehangach o bobl ifanc, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig nad ydynt ar hyn o bryd yn ymwneud â gwaith ieuenctid, ac nad ydynt efallai'n ymwneud ag addysg ffurfiol, hyfforddiant na gwaith. Bydd yn cefnogi gweithwyr ieuenctid i ddarparu gwasanaethau ymyriadau ac atal cynnar ar gyfer y rhai â phroblemau iechyd meddwl a lles emosiynol lefel isel, a byddant ar gael ledled Cymru.

Iechyd a Gwasanaeth Cyhoeddus: Ymchwiliad COVID-19

- Gwaith paratoi Ymchwiliad COVID-19

2.35 £1.13m ar gyfer y paratodau a'r gweithgarwch mewn perthynas ag Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19.

Cefnogi'r Economi

| Cefnogi'r Economi | |
|---|------------------------|
| <i>Dyraniadau Allweddol o Gronfeydd Wrth Gefn</i> | <i>Cyfanswm</i> |
| Cymorth brys i fusnesau | £125m |
| Arloesedd Busnes | £13.9m o gyfalaf |
| Y Gronfa Adferiad Diwylliannol | £14.75m |
| Adferiad y Diwydiant Bwyd a Diod | £12m |
| Hybu'r Economi Ymwelwyr | £4.92m |
| Y Gronfa Chwaraeon a Hamdden | £4m |
| Cadw | £2m |
| Colli incwm Clwb Criced Morgannwg | £0.71m |
| | <u>£177.28m</u> |

2.36 Gwyddom fod busnesau manwerthu, lletygarwch, hamdden a thwristiaeth yng Nghymru a'u cadwyni cyflenwi wedi cael eu heffeithio gan ledaeniad cyflym yr amrywiolyn Omicron ac mae angen cymorth ariannol brys ar y sector ar yr adeg heriol hon. Rydym wedi ymestyn y cymorth hwn i [fusnesau sydd newydd eu sefydlu](#) a busnesau manwerthu nad ydynt yn hanfodol fel y bydd siopau llai yn cael eu cefnogi a gall ein strydoedd mawr barhau i ffynnu.

- **Cymorth brys i fusnesau**

2.37 [Pecyn gwerth £125m](#) o gymorth brys, sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer costau gweinyddol rhedeg y cynllun, sydd ar gael i fusnesau Cymru a gafodd eu heffeithio gan ledaeniad Omicron yn ystod y cyfnod rhwng 13 Rhagfyr 2021 a 14 Chwefror 2022 – mae'r amserlen yn gysylltiedig â'r effaith ddisgwyliedig ar y busnesau hynny. Mae'r cyllid yn cynnwys tair elfen:

Cefnogi'r Economi (parhad)

- Grantiau sy'n gysylltiedig ag Ardrethi Annomestig (NDR) o hyd at £6,000;
- Cronfa ddewisol a ddarperir gan Awdurdodau Lleol i gefnogi unig fasnachwyr, gweithwyr llawrydd a busnesau nad ydynt yn talu ardrethi, gyda grantiau rhwng £1,000 a £2,000; ac
- Ailagor y Gronfa Cadernid Economaidd (ERF). Ar ben grantiau sy'n seiliedig ar Ardrethi Annomestig, bydd y gronfa hon yn gweld grantiau o hyd at £25,000 ar gyfer busnesau lletygarwch a hamdden yr effeithiwyd arnynt yn ddifrifol – a'u cadwyni cyflenwi.

- **Arloesedd Busnes**

2.38 Dangosodd cynllun Ymchwil a Datblygu COVID yn 2020 alw gwirioneddol gan fusnesau a sefydliadau ymchwil i gymryd rhan mewn gwaith datblygu cynhyrchion a phrosesau newydd i helpu i adfer o'r pandemig. Bydd dyraniad cyfalaf o **£13.9m** yn galluogi busnesau, prifysgolion, y sectorau cyhoeddus a phreifat i gydweithio ymhellach ar amrywiaeth o brosiectau Arloesedd Busnes SMART i ddatblygu cynhyrchion, prosesau a gwasanaethau newydd. Mae'r gweithgarwch hwn hefyd yn cefnogi'r broses o gyflawni blaenoriaethau allweddol y Rhaglen Lywodraethu ar draws adrannau, gan gynnwys nodau'r economi gylchol, datgarboneiddio, cynaliadwyedd amgylcheddol, arloesedd ym maes iechyd, gwyddorau bywyd a thai arloesol.

- **Y Gronfa Adferiad Diwylliannol**

2.39 I gydnabod effaith sylweddol y pandemig ar y sector diwylliannol a'i gyfraniad gwerthfawr, rydym wedi darparu cyllid yn ystod y pandemig i sicrhau sefydlogrwydd hirdymor y sector diwylliannol ar draws nifer o gronfeydd, gan arwain at y mwyafrif llethol, os nad pob lleoliad, yn dianc rhag cau'n barhaol. Mae **£14.75m** yn ddyraniad ychwanegol i gefnogi'r gwaith o gynnal [trydydd cylch y Gronfa Adferiad Diwylliannol](#).

Cefnogi'r Economi (parhad)

- Adferiad y Diwydiant Bwyd a Diod

2.40 Mae COVID-19 wedi effeithio'n aruthrol ar sector bwyd a diod Cymru ac mae'n bygwth goroesiad busnesau. Dyrennir **£8m** o refeniw a **£4m** o gyfalaf i gefnogi cyfres o gamau gweithredu â blaenoriaeth a nodir yng [Nghynllun Adfer COVID-19 Bwyd a Diod Cymru](#) i gefnogi'r diwydiant bwyd a diod fel bod gan y rhan fwyaf o fusnesau a rhwydweithiau'r gadwyn gyflenwi ddigon o gadernid i oroesi.

- Hybu'r Economi Ymwelwyr

2.41 Mae twristiaeth yn parhau i wynebu heriau o ganlyniad i gyfyngiadau i reoli'r pandemig. Dyrennir **£4.92m** i gefnogi amrywiaeth o fesurau i hybu'r economi ymwelwyr yng Nghymru sy'n cynnwys ymestyn gweithgarwch marchnata Hydref/Gaeaf Croeso Cymru a datblygu adnoddau a chynhyrchion craidd ar gyfer y diwydiant twristiaeth yn benodol i hybu ymweliadau i'r Gwanwyn 2022.

- Y Gronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden

2.42 Mae'r sector chwaraeon hefyd yn parhau i ddioddef o ganlyniad i'r pandemig ac rydym yn dyrannu **£4m** ar gyfer Cronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden 2 i gefnogi'r sector i ymateb i heriau parhaus yr argyfwng a darparu rhai o'r mesurau adfer sydd eu hangen i gefnogi cynaliadwyedd tymor hwy.

- Cadw

2.43 Mae gan Cadw rôl hanfodol o ran diogelu ein treftadaeth a gofalu am eiddo hanesyddol. Yn ystod adegau arferol mae'n sicrhau manteision sylweddol o ran yr economi a thwristiaeth, yn ogystal ag effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol pwysig. Mae'r pandemig yn parhau i gael effaith ar incwm masnachol Cadw, yn enwedig ym misoedd cynnar blwyddyn ariannol 2021-22, ac rydym yn dyrannu **£2m** mewn ymateb.

Cefnogi'r Economi (parhad)

- Colli incwm Clwb Criced Morgannwg

2.44 Rydym yn dyrannu **£0.71m** i gefnogi Clwb Criced Morgannwg o ganlyniad i effaith ariannol barhaus y pandemig ar ei incwm a ddaw oddi wrth reffeniw'r gwylwyr.

Trafnidiaeth

| Trafnidiaeth | |
|--|----------------------|
| <i>Dyraniadau COVID-19 o Gronfeydd Wrth Gefn</i> | <i>Cyfanswm</i> |
| Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Trenau | £53.1m |
| Cymorth i Fysiau | £22m |
| | <u>£75.1m</u> |

- Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Trenau a Bysiau – cyfanswm o £75.1m

2.45 Mae cyfyngiadau a roddwyd ar waith i liniaru effeithiau'r pandemig yn parhau i gael effaith ar y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a refeniw teithwyr.

2.46 Dyrennir **£53.1m** ar gyfer cymhorthdal pellach ac i gefnogi'r gwaith parhaus o weithredu gwasanaethau trenau ar draws rhanbarth Cymru a'r Gororau ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2022. Mae hyn yn ofynnol oherwydd llai o alw gan deithwyr sy'n arwain at ostyngiad o ran refeniw tocynnau, a'r newidiadau o ran sut y mae gwasanaethau trenau yn cael eu rheoli bellach.

- Cymorth i Fysiau

2.47 Dyrennir **£22m** i gefnogi'r diwydiant bysiau i gynnal a gwella lefelau'r gwasanaethau a ddarperir i ateb y galw sy'n esblygu gan deithwyr a galluogi gweithredwyr a theithwyr i ddefnyddio'r rhwydwaith yn ddiogel drwy'r cyfnod pontio wrth i'r wlad adfer o'r pandemig.

2.48 Er bod cynnydd wedi bod yn y galw am wasanaethau bysiau wrth i'r cyfyngiadau lacio, mae'r galw dros yr un cyfnod yn dal i fod yn llawer llai na niferoedd y teithiau cyn y pandemig.

Y Trydydd Sector a Chymunedau

| Y Trydydd Sector a Chymunedau | |
|--|-----------------------|
| <i>Dyraniadau COVID-19 o Gronfeydd Wrth Gefn</i> | <i>Cyfanswm</i> |
| Y Gronfa Cymorth Dewisol | £4.2m |
| Cymorth i'r Trydydd Sector | £6m |
| Eiriolaeth a Chyngor | £1.5m |
| Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) | £1m |
| Cymorth i Affrica | £1.5m |
| Cymorth i Bobl Anabl | £0.88m |
| | <u>£15.08m</u> |

2.49 Rydym yn parhau i flaenoriaethu anghenion y rhai sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas ac i liniaru effaith barhaus y pandemig rydym yn gwneud y dyraniadau canlynol.

- **Y Gronfa Cymorth Dewisol**

2.50 **£4.2m** i'r Gronfa Cymorth Dewisol i barhau â llacio'r rheolau ynghylch gwneud cais am daliad, gan roi mwy o hyblygrwydd a disgresiwn i nifer ac amllder y Taliadau Cymorth Brys hyd at 31 Mawrth 2022. Rydym yn ymestyn yr hyblygrwydd hwn i gynnwys pobl yr effeithir arnynt drwy dynnu'r cynnydd o £20 y Credyd Cynhwysol yn ôl a gyflwynwyd ym mis Hydref 2021.

- **Cymorth i'r Trydydd Sector**

2.51 Mae'r trydydd sector wedi darparu rôl bwysig o ran ymateb i'r pandemig, gan gynnig llawer o wasanaethau a chyngor amhrisiadwy. Mae'r pandemig wedi taro'r sector yn galed, nid yn unig yn sgil colli arian oherwydd diffyg cyfleoedd i godi arian, ond hefyd yn sgil defnyddio eu cronfeydd wrth gefn er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n dal i gael eu cynnal.

Y Trydydd Sector a Chymunedau (parhad)

2.52 Rydym yn dyrannu **£3m** i helpu'r trydydd sector i ddarparu cymorth hanfodol parhaus i bobl sy'n agored i niwed ac ategu gwasanaethau statudol a **£3m** o gyllid ychwanegol i Gronfa Gwydnwch y Trydydd Sector a sefydlwyd i helpu sefydliadau'r sector gwirfoddol i oroesi'r pandemig parhaus a'u helpu i wella eu gwydnwch a'u cynaliadwyedd yn y dyfodol.

- **Eiriolaeth a Chyngor**

2.53 Mae anghydraddoldebau yn ein cymdeithas wedi'u gwaethygu gan y pandemig. Mae'r pwysau ariannol sy'n wynebu aelwydydd ledled Cymru bellach yn dwysáu oherwydd effaith gyfunol yn sgil y cynnydd o £20 mewn Credyd Cynhwysol yn dod i ben a chynnydd sylweddol mewn costau byw. Dyrennir **£1.5m** i gefnogi'r gwaith o ddarparu Gwasanaethau Cynghori fel bod pobl yn deall yr holl gymorth ariannol sydd ar gael iddynt ac yn gallu cael gafael ar y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i lywio drwy'r system nawdd cymdeithasol.

- **Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

2.54 Cododd y pandemig heriau sylweddol i ddiodefwr, goroeswyr a gwasanaethau arbenigol yn y sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Dyrennir **£1m** i gefnogi gwaith ataliol, gan gynnwys addysg perthnasoedd iach mewn ysgolion ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ynghylch Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

- **Cymorth i Affrica**

2.55 Mae gan Gymru berthynas hirsefydlog â Namibia a rhanbarth Mbale yn Uganda ac mae llawer o bobl o Gymru yn ymwneud â'r cysylltiadau cymunedol neu'r sefydliadau hyn. Rydym yn dyrannu **£1.5m** i ddarparu cymorth ar gyfer nifer o brosiectau gan gynnwys Oxygen Namibia i ddarparu ocsigen ar gyfer anghenion uniongyrchol achub bywydau cenedlaethol yn sgil COVID-19, a defnydd hirdymor cynaliadwy y tu hwnt i'r pandemig.

Y Trydydd Sector a Chymunedau (parhad)

- Cymorth i Bobl Anabl

2.56 £0.88m i gefnogi amrywiaeth o fesurau mewn ymateb i'r canfyddiadau allweddol yn yr adroddiad Drws Ar Glo, gan gynnwys sefydlu Tasglu Gweinidogol i gyflawni argymhellion yr adroddiad. Mae pobl anabl wedi profi rhai o effeithiau mwyaf anghymesur ac andwyol y pandemig.

Dyraniadau Allweddol Eraill o Gronfeydd wrth Gefn

2.57 Fel llywodraeth gyfrifol, rydym wedi defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ni i sicrhau bod ein cynlluniau gwariant yn ystod y flwyddyn yn mynd i'r afael â'r heriau uniongyrchol y mae'r pandemig yn parhau i'w hachosi. Rhaid inni hefyd fynd i'r afael ag effeithiau hirdymor y pandemig ar wasanaethau, busnesau ac unigolion a chefnogi llwybr ein gwasanaethau cyhoeddus a'n heconomi tuag at adferiad, fel ein bod yn dod allan ohono yn Gymru gryfach o ganlyniad. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni ein hymrwymadau uchelgeisiol yn y Rhaglen Lywodraethu i adeiladu'r Gymru gryfach, wyrddach a thecach yr ydym i gyd am ei gweld yn helpu gwasanaethau cyhoeddus a'n heconomi i adfer o'r pandemig, a'n symud yn nes at fod yn genedl ddi-garbon.

2.58 Ceir manylion yma am rai o'r dyraniadau allweddol i gefnogi'r blaenoriaethau gweinidogol hyn. Mae'r holl ddyraniadau wedi'u nodi yn ôl Prif Grŵp Gwariant (MEG) ac fe'u dangosir yn y tablau ym Mhennod 6. Nid ydynt yn rhai cylchol yn 2022-2023.

MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

2.59 **£15m** o gyfalaf i gefnogi'r gwaith ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer cyfleusterau theatrau llawdriniaethau.

2.60 **£5.905m** o gyfalaf ar gyfer caffael adeilad swyddfa Matrix House yn Abertawe gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

2.61 **£5.264m** o gyfalaf ar gyfer caffael Gweithdy Ambiwlans Merthyr, ac adeilad Plas Gororau i ategu'r gwaith parhad a gynlluniwyd a gwaith ailddatblygu arfaethedig Ysbyty Maelor Wrecsam.

2.62 **£10.818m** o gyfalaf ar gyfer caffael cyfarpar meddygol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Dyraniadau Allweddol Eraill o Gronfeydd wrth Gefn

MEG Cyllid a Llywodraeth Leol

- 2.63** Er mwyn helpu pobl gyda'r argyfwng costau byw, dyrannwyd **£152m** i ddarparu taliad costau byw o £150 i bob aelwyd sy'n byw mewn eiddo yn y bandiau treth gyngor A-D, yn ogystal â'r rhai sy'n derbyn Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ym mhob band. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'r awdurdodau lleol i roi rhagor o fanylion am sut bydd y cynllun yn cael ei weithredu a bydd y taliadau'n cael eu gwneud cyn gynted â phosibl.
- 2.64** Yn ychwanegol at y rhaglen £152m hon, bydd **£25m** pellach yn cael ei ddarparu fel cronfa ddewisol i awdurdodau lleol, sy'n caniatáu i gynghorau ddefnyddio'u gwybodaeth leol i helpu aelwydydd a allai fod yn ei chael hi'n anodd cael deupen llinyn ynghyd.
- 2.65** Mae awdurdodau lleol yn wynebu llawer o heriau i reoli eu rhaglenni cyfalaf yn effeithiol o ganlyniad i ymyriadau ac oedi sy'n parhau yn sgil y pandemig a'r costau cynyddol cyffredinol presennol yn y diwydiant adeiladu. Rydym yn dyrannu **£70m** o gyfalaf i'w ddsbarthu i awdurdodau lleol ar sail cyllid grant cyfalaf cyffredinol llywodraeth leol.
- 2.66** **£65.531m** o gyfalaf i alluogi rhandaliadau blynyddol cyllid y llywodraeth i gael eu talu i fargeinion Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Bae Abertawe a Gogledd Cymru yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i ailbroffilio ei chyfraniadau i'r bargeinion.
- 2.67** Achosodd llifogydd mis Chwefror 2020 ddifrod na welwyd ei debyg o'r blaen ac mae awdurdodau lleol ledled Cymru yn dal i wneud gwaith atgyweirio ac ailadeiladu strwythurol i seilwaith a ddifrodwyd. Cafodd y gwaith hwn ei lesteirio i ryw raddau gan y cyfyngiadau dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn sgil y pandemig. Rydym yn darparu cymorth

ariannol ychwanegol o **£19.037m** o gyfalaf i helpu i dalu costau adfer sy'n deillio o'r difrod eang a sylweddol a achoswyd.

2.68 **£8m** o refeniw i ariannu'r [Rhaglen Arloesi Etholiadol](#) i'w chyflwyno fel rhan o Etholiadau Lleol 2022. Mae'r Rhaglen yn rhan o raglen bum mlynedd ehangach o ddiwygio etholiadol.

Dyraniadau Allweddol Eraill o Gronfeydd wrth Gefn

MEG Addysg a'r Gymraeg

- 2.69** Er ein bod am gefnogi'r sector addysg i adfer o'r pandemig, rhaid inni hefyd sicrhau ein bod yn parhau i gynllunio ar gyfer y dyfodol, a helpu pob lleoliad addysg ledled Cymru i gyflawni ein nodau ar y cyd o wneud Cymru'n genedl sero net.
- 2.70** Caiff **£50m** o gyfalaf ei ddarparu drwy awdurdodau lleol drwy raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Bydd y cyllid yn helpu ysgolion i wneud gwaith cyfalaf atgyweirio a gwella, gan ganolbwyntio ar fesurau iechyd a diogelwch, fel gwella systemau awyru. Caiff y cyllid hefyd ei ddefnyddio i gefnogi datgarboneiddio.
- 2.71** Bydd **£45m** o gyllid refeniw hefyd yn helpu i gefnogi cyllidebau ysgolion, gan gefnogi ysgolion wrth iddynt barhau i ddelio ag effeithiau parhaus y pandemig a pharatoi ar gyfer gofynion y cwricwlwm newydd.
- 2.72** Mae **£52.5m** wedi'i ddyrannu i gefnogi amrywiaeth o fesurau gan gynnwys:
- **£40m** ar gyfer gwaith cynnal a chadw, cyfarpar a datblygiadau eraill sy'n cefnogi'r broses o newid i sero net a gwaith trawsnewid digidol, a bydd £20m ohono'n canolbwyntio ar fuddsoddi mewn gwella gwasanaethau a chyfleusterau i fyfyrwyr;
 - **£10.5m** ar gyfer gweithgarwch ymchwil ychwanegol, gan gynnwys £0.5m i gefnogi datblygiadau Cymru Sero Net; a
 - **£2m** i gefnogi buddsoddiad pellach yn Rhwydwaith Arloesi Cymru, i ddatblygu capasiti a gallu bidio ym mhrifysgolion Cymru sy'n gweithio gyda busnesau, gwasanaethau cyhoeddus a/neu sefydliadau cymunedol.

- 2.73** Dyrennir **£8m** o gyllid ychwanegol i helpu ysgolion y mae eu cyllidebau a'u capasiti staff eisoes wedi'u hystyngi, i baratoi ar gyfer y system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd a'i rhoi ar waith.
- 2.74** Darparwyd **£7.072m** i gefnogi dysgwyr blwyddyn 11 sydd â lefelau presenoldeb isel i gwblhau eu TGAU neu eu helpu i gyrraedd cam nesaf yn eu haddysg neu wrth ddechrau gyrfa, yn ogystal â gwell cymorth presenoldeb ar gyfer blynyddoedd eraill. Bydd cyllid yn cael ei ddarparu hefyd i gefnogi lles ac addysg ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau eraill, yn ogystal â hyfforddiant ychwanegol i helpu i gefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi dioddef trawma neu sydd â phroblem iechyd meddwl.
- 2.75** Dyrannwyd **£7.9m** tuag at gefnogi cost dyfarniad cyflog 2021/22 mewn ysgolion a cholegau AB.
- 2.76** **£5.09m** i ariannu [rhaglenni darllen](#) ledled Cymru i ddarparu llyfr ar gyfer pob dysgwr yng Nghymru, ochr yn ochr â chynllun wedi'i dargedu o gymorth darllen sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr blynyddoedd cynnar a dysgwyr dan anfantais.
- 2.77** **£5.5m** o gyfalaf a **£1.32m** o refeniw i ddarparu [adnoddau ychwanegol](#) i ysgolion ar gyfer cerddoriaeth, a **£0.05m** ar gyfer adnoddau hanes Cymru i gefnogi'r cwricwlwm newydd.
- 2.78** Darperir **£0.527m** i gefnogi costau sy'n gysylltiedig â sicrhau bod mynediad am ddim i Eisteddfod yr Urdd yn ystod ei chanmlwyddiant.
- 2.79** Dyrannwyd **£0.35m** i ddatblygu dull ysgolion cymunedol gyda gweithgareddau ymgysylltu gwell i deuluoedd.
- 2.80** **£0.5m** ar gyfer Cyflymydd Cenedl Ddata Cymru, rhaglen genedlaethol o ymyriadau a fydd yn helpu Cymru i ddod yn wydn ac yn ffyniannus yn sgil y trawsnewidiad sy'n digwydd oherwydd cyrhaeddiad eang gwyddor data a deallusrwydd artiffisial.

Dyraniadau Allweddol Eraill o Gronfeydd wrth Gefn

MEG Newid Hinsawdd

- 2.81** Rydym yn dyrannu **£23m** o gyfalaf a **£0.5m** o refeniw i gefnogi'r gwaith o fwrw ati â chynigion i ddatblygu tir a/neu adeiladau sy'n addas ar gyfer datblygiadau tai cymdeithasol, ac i gyflymu'r cynllun peilot cartrefi gwag.
- 2.82** Mae **£20m** yn cael ei ddarparu i gefnogi'r sector adeiladu tai cymdeithasol yn sgil pwysau costau oherwydd y cynnydd sylweddol yng nghostau deunyddiau.
- 2.83** Mae **£4.75m** yn cael ei ddyrannu i gefnogi'r gwaith o weithredu argymhellion Adroddiad Comisiwn Burns ar gyfer Casnewydd.
- 2.84** Darparwyd **£4.5m** o gyfalaf ar gyfer caffael Canolfan Siopa Santes Tudful fel rhan o'r gwaith o adfywio'r dref fel y nodir yn y cynllun creu lleoedd strategol.
- 2.85** Mae **£2m** yn cael ei ddyrannu i gefnogi costau arolygu materion diogelwch tân mewn eiddo preswyl uchel a chanolig.
- 2.86** **£1.1m** i gefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud ar ddiogelwch tomenni glo yng Nghymru.

Dyraniadau eraill o Gronfeydd wrth Gefn

MEG yr Economi

- 2.87** Rydym yn dyrannu **£18m** mewn cyfalaf trafodiadau ariannol i gefnogi benthyciad i Undeb Rygbi Cymru.
- 2.88** **£10m** o gyfalaf i gefnogi cyfleusterau cyflenwi pŵer ym Mharc Imperial, Casnewydd.

Dyraniadau Allweddol Eraill o Gronfeydd wrth Gefn

MEG Materion Gwledig

- 2.89** £1m i gefnogi'r Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach.
- 2.90** £0.06m i adolygu'r rhaglen profi TB ar raddfa fawr er mwyn sicrhau bod y gwaith o ddarparu profion TB yng Nghymru yn cael ei ddiogelu at y dyfodol.

Dyraniadau Allweddol Eraill o Gronfeydd wrth Gefn

MEG Cyfiawnder Cymdeithasol

- 2.91** Rydym yn dyrannu **£3m** (cyfalaf trafodiadau ariannol) i gynyddu'r Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol a sefydlwyd i alluogi sefydliadau'r sector gwirfoddol i brynu a gwella asedau cymunedol.
- 2.92** **£1.86m** i ariannu costau recriwtio a threfnu ar gyfer 100 o Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol yr Heddlu.
- 2.93** Mae **£0.48m** o gyfalaf yn cael ei ddarparu i gynnal rhaglen o welliannau i gwblhau'r gwaith o adnewyddu Cartref Diogel i Blant Hillside.

Dyraniadau Allweddol Eraill o Gronfeydd wrth Gefn

MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

- 2.94** Rydym yn dyrannu **£15m** i gefnogi costau staff LIC.
- 2.95** Mae **£9.5m** yn cael ei ddarparu i ariannu Etholiad y Senedd 2021.
- 2.96** Mae **£0.4m** o gyllid yn cael ei ddyrannu i sefydlu'r [Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru](#).

3. Newidiadau i Gyllideb Cymru ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22

- 3.1** Mae tablau 3.1 i 3.4 yn nodi effaith net yr holl newidiadau i gyllideb Cymru. Mae tabl 3.5 yn crynhoi cyfanswm y dyraniadau yn ôl MEG.

Tabl 3.1 – Ffynonellau Cyllid Llywodraeth Cymru

| CYDRANNAU CYLLIDO LLYWODRAETH CYMRU | 2021-22 Cyllideb Atodol Mehefin 2021 | Newidiadau | Cyllideb Atodol 2021-22 Cynlluniau Newydd Chwefror 2022 |
|--|---|------------------|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| CYLLIDO ADNODDAU | | | |
| Terfyn Gwariant Adrannol (DEL): | | | |
| Cyllidol | 16,237,179 | 322,340 | 16,559,519 |
| Anghyllidol | 1,519,960 | 62,530 | 1,582,490 |
| Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru | 125,000 | 0 | 125,000 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME): | | | |
| Cyllidol | 27,915 | -969 | 26,946 |
| Anghyllidol | 149,934 | 222,130 | 372,064 |
| Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru: | | | |
| Ardrethi Annomestig | 721,500 | 0 | 721,500 |
| Cyfradd Treth Incwm Cymru | 2,064,061 | 0 | 2,064,061 |
| Treth Trafodiadau Tir | 280,215 | 87,031 | 367,246 |
| Treth Gwarediadau Tirlenwi | 34,350 | 10,996 | 45,346 |
| Prif ad-daliad o'r benthyciad | -2,417 | 0 | -2,417 |
| CYFANSWM CYLLIDO ADNODDAU | 21,157,697 | 704,058 | 21,861,755 |
| CYLLIDO CYFALAF | | | |
| Terfyn Gwariant Adrannol (DEL): | | | |
| Cyffredinol | 2,462,350 | 343,310 | 2,805,660 |
| Trafodiadau Ariannol | 147,704 | -17,978 | 129,726 |
| Trafodiadau Ariannol - Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru | 0 | 50,000 | 50,000 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME): | | | |
| Cyfalaf | 968,961 | 61,835 | 1,030,796 |
| Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru: | | | |
| Benthyca | 150,000 | -37,000 | 113,000 |
| CYFANSWM CYLLIDO CYFALAF | 3,729,015 | 400,167 | 4,129,182 |
| CYFANSWM CYLLIDO CYMRU | 24,886,712 | 1,104,225 | 25,990,937 |

Tabl 3.2 – Dyrannu Cyllideb Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | £000oedd | | | |
|--|---|------------------|---|---------|
| | 2021-22 Cyllideb Atodol Mehefin 2021 | Newidiadau | Cyllideb Atodol 2021-22 Cynlluniau Newydd Chwefror 2022 | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 9,892,281 | 1,081,771 | 10,974,052 | |
| Cyllid a Llywodraeth Leol | 5,449,116 | 666,326 | 6,115,442 | |
| Y Gymraeg ac Addysg | 3,258,325 | 424,730 | 3,683,055 | |
| Y Newid yn yr Hinsawdd | 2,729,704 | 51,903 | 2,781,607 | |
| Yr Economi | 644,384 | 123,814 | 768,198 | |
| Materion Gwledig | 356,305 | 10,651 | 366,956 | |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 151,746 | 20,723 | 172,469 | |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 325,217 | 30,075 | 355,292 | |
| Cyfanswm y Dyraniad i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru | 22,807,078 | 2,409,993 | 25,217,071 | |
| Adnoddau heb eu Dyrannu | Adnoddau Cyllidol | 1,264,917 | -1,264,895 | 22 |
| | Adnoddau Anghyllidol | 554,431 | -17,826 | 536,605 |
| Cyfalaf heb ei Ddyrannu | Cyffredinol | 114,026 | -114,026 | 0 |
| | Trafodiadau Ariannol | 67,565 | 91,049 | 158,614 |
| Comisiwn y Senedd | 62,914 | -1,700 | 61,214 | |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 5,110 | 178 | 5,288 | |
| Swyddfa Archwilio Cymru | 8,148 | 1,480 | 9,628 | |
| Y Comisiwn Etholiadol | 1,750 | 0 | 1,750 | |
| Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 773 | -28 | 745 | |
| CYFANSWM CYLLIDEB CYMRU | 24,886,712 | 1,104,225 | 25,990,937 | |

Tabl 3.3 – Newidiadau i Ddyraniadau MEG Adnoddau Llywodraeth Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | £000oedd | | | | | |
|--|---|------------------|---|---|---------------|--|
| | CYLLIDOL | | | ANGHYLLIDOL | | |
| | 2021-22 Cyllideb Atodol Mehefin 2021 | Newidiadau | Cyllideb Atodol 2021-22 Cynlluniau Newydd Chwefror 2022 | 2021-22 Cyllideb Atodol Mehefin 2021 | Newidiadau | Cyllideb Atodol 2021- 22 Cynlluniau Newydd Chwefror 2022 |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 9,170,141 | 601,640 | 9,771,781 | 186,137 | 57,000 | 243,137 |
| Cyllid a Llywodraeth Leol | 4,518,207 | 526,119 | 5,044,326 | 212 | 0 | 212 |
| Y Gymraeg ac Addysg | 1,667,854 | 282,461 | 1,950,315 | 498,148 | 554 | 498,702 |
| Y Newid yn yr Hinsawdd | 859,104 | 119,803 | 978,907 | 239,121 | 25,000 | 264,121 |
| Yr Economi | 458,263 | 98,306 | 556,569 | 11,598 | 0 | 11,598 |
| Materion Gwledig | 330,145 | 7,851 | 337,996 | 11,554 | -2,200 | 9,354 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 103,299 | 18,528 | 121,827 | 169 | -20 | 149 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 293,028 | 30,647 | 323,675 | 16,000 | 20 | 16,020 |
| Cyfanswm y Dyraniad i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru | 17,400,041 | 1,685,355 | 19,085,396 | 962,939 | 80,354 | 1,043,293 |

Tabl 3.4 – Newidiadau i Ddyraniadau Cyfalaf MEG Llywodraeth Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | £000oedd | | | | | |
|---|--|----------------|---|--|----------------|---|
| | CYFALAF CYFFREDINOL | | | TRAFODIADAU ARIANNOL | | |
| | 2021-22 Cyllideb Atodol Mehafin 2021 | Newidiadau | Cyllideb Atodol 2021-22 Cynlluniau Newydd Chwefror 2022 | 2021-22 Cyllideb Atodol Mehafin 2021 | Newidiadau | Cyllideb Atodol 2021-22 Cynlluniau Newydd Chwefror 2022 |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 387,600 | 134,127 | 521,727 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid a Llywodraeth Leol | 209,197 | 140,227 | 349,424 | 0 | -20 | -20 |
| Y Gymraeg ac Addysg | 269,780 | 76,028 | 345,808 | 1,968 | -1,141 | 827 |
| Y Newid yn yr Hinsawdd | 1,460,577 | 36,775 | 1,497,352 | 74,310 | -44,808 | 29,502 |
| Yr Economi | 125,613 | 27,090 | 152,703 | 385 | -14,582 | -14,197 |
| Materion Gwledig | 14,606 | 5,000 | 19,606 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 16,887 | 1,660 | 18,547 | 3,476 | 1,524 | 5,000 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 13,189 | -592 | 12,597 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm y Dyranid i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru | 2,497,449 | 420,315 | 2,917,764 | 80,139 | -59,027 | 21,112 |

- 3.2** Darperir trosolwg o'r newidiadau i'r ffynonellau cyllid isod a gellir gweld manylion dyraniadau o gronfeydd wrth gefn yn adran 6.

Addasiadau i Ffynonellau Cyllid

Adnoddau Cyllidol

- 3.3** Cafwyd cynnydd net i linell sylfaen yr Adnoddau Cyllidol o £322,340k yn cynnwys:

- Symiau canlyniadol Barnett yn dod i gyfanswm o £628,517k yn cynnwys:
 - £314,280k mewn perthynas â chyllid a gyhoeddwyd yng Nghyllideb y DU ar gyfer yr Hydref 2021; a
 - £134,041k a ddisgwyllir yn Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU ym mis Chwefror 2022. Mae'r swm hwn yn net o £180,196k mewn perthynas â mesurau ad-daliad y dreth gyngor a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ym mis Chwefror 2022 ac fe gaiff ei gario ymlaen i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i mewn i 2022-23;
- Cyllid heb fod yn Barnett o £26,504k o Drysorlys Ei Mawrhydi yn cynnwys:
 - £11,227k mewn perthynas ag ad-daliadau trwy Drysorlys Ei Mawrhydi
 - £9,016k mewn perthynas ag ad-daliadau gwirfoddol Ardrethi Annomestig;
 - £5,150k mewn perthynas ag addasiadau'r flwyddyn flaenorol yn ymwneud â'r Gordal Iechyd Mewnfudo;
 - £885k mewn perthynas â chyllido'r Dreth ar Damponau
 - £226k mewn perthynas ag ad-daliad rheoli arian parod;
- Trosglwyddiadau i mewn oddi wrth Adrannau eraill o'r Llywodraeth gwerth cyfanswm o £129,051k, yn cynnwys:
 - £84,120k oddi wrth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnwys:
 - £82,437k mewn perthynas â rhaglen Profi ac Olrhain y GIG;

- £775k mewn perthynas â diwygio tystysgrifau marwolaeth a chyflwyno archwilwyr meddygol;
- £508k mewn perthynas â gwaed halogedig; a
- £400k mewn perthynas ag adsefydlwyr o Affganistan mewn llety pontio;
- Trosglwyddiad i mewn o £37,976k oddi wrth y Swyddfa Gartref mewn perthynas â balans y Gordal Iechyd Mewnfudo ar gyfer 2021-22;
- Trosglwyddiad o £3,700k i mewn oddi wrth yr Asiantaethau Diogelwch a Chudd-wybodaeth mewn perthynas â seibergadernid;
- Trosglwyddiad o £1,636k i mewn oddi wrth yr Adran Drafnidiaeth mewn perthynas â gwaith cynnal a chadw ac adnewyddu ar Linellau Craidd y Cymoedd;
- Trosglwyddiad o £1,000k i mewn oddi wrth Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig mewn perthynas â hwb i'r sector pysgodfeydd a bwyd môr;
- Trosglwyddiad o £369k i mewn oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau mewn perthynas â'r Gronfa Arloesi Iechyd;
- Trosglwyddiad o £250k i mewn oddi wrth yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol mewn perthynas â chostau gweinyddu Salix;
- Gostyngiad o £(45,749)k o ganlyniad i ailgyfrifiad a chynnydd i'r addasiad i'r grant bloc; a
- Trosglwyddiadau allan gwerth cyfanswm o £(561)k i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn cynnwys:
 - £(362)k mewn perthynas â 'Chwalu Ffiniau';
 - £(100)k mewn perthynas â Grant Coetiroedd Cymunedol y Goedwig Genedlaethol;
 - £(51)k mewn perthynas â Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, a
 - £(48)k mewn perthynas â 'Lleoedd Lleol ar gyfer Natur'; a

- Gostyngiad o £(415,422)k o ganlyniad i newid o'r gyllideb adnoddau i'r gyllideb cyfalaf cyffredinol.

Adnoddau Anghyllidol

3.4 Ers y Gyllideb Atodol Gyntaf mae llinell sylfaen Adnoddau Anghyllidol wedi cynyddu £62,530k, yn cynnwys:

- £44,458k ar gyfer dibrisiant ar Linellau Craidd y Cymoedd: a
- Symiau canlyniadol Barnett yn dod i gyfanswm o £18,072k, a ddisgwylir yn Amcangyfrifon Atodol y DU.

Cyllido Datganoledig Cymru

3.5 Mae'r rhagolygon ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Dirlenwi wedi cynyddu £98,027k gan adlewyrchu'r rhagolygon a gyhoeddwyd gan [y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol](#) ym mis Rhagfyr 2021. Er bod diweddariad OBR hefyd yn diwygio'r rhagolwg ar gyfer Cyfradd Treth Incwm Cymru (CTIC) ar gyfer 2021-22, mae'r refeniw o CTIC yn y gyllideb hon yn parhau i fod yn £2,064,061k yn unol â [Fframwaith Cyllidol](#) y cytunwyd arno gyda Llywodraeth y DU. Mae lefel gwariant awdurdodau lleol a ariennir gan ardrethi annomestig yn parhau i fod yr un fath sef £721,500k.

Cyfalaf Cyffredinol

3.6 Cafwyd cynnydd net o £343,310k i linell sylfaen cyfalaf cyffredinol yn cynnwys:

- Cynnydd net mewn symiau canlyniadol Barnett yn dod i gyfanswm o £56,781k, yn cynnwys;
 - Cynnydd o £110,788k mewn perthynas â chyllid a gyhoeddwyd yng Nghyllideb y DU ar gyfer yr Hydref 2021; a
 - Gostyngiad o £(54,007)k a ddisgwylir yn Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU ym mis Chwefror 2022;
- Cynnydd net o £6,231k mewn ychwanegiadau nad ydynt yn Barnett mewn perthynas â chyllid ar gyfer Bargeinion Dinesig a Thwf;

- Cynnydd net o £14,018k o ganlyniad i drosglwyddiadau gydag Adrannau eraill o'r Llywodraeth, yn cynnwys:
 - £11,925k oddi wrth yr Adran Drafnidiaeth mewn perthynas â gwaith cynnal a chadw ac adnewyddu ar Linellau Craidd y Cymoedd;
 - £2,993k oddi wrth DCMS mewn perthynas â seilwaith digidol, a
 - £(900)k mewn perthynas â throsglwyddiadau i DCMS yn cynnwys:
 - £(600)k mewn perthynas â 'Lleoedd Lleol ar gyfer Natur'; a
 - £(300)k mewn perthynas â Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol';
- Gostyngiad o £(149,142)k o ganlyniad i addasiad i wariant CDEL 2020-21; a
- Cynnydd o £415,422k o ganlyniad i newid o'r gyllideb adnoddau i'r gyllideb cyfalaf cyffredinol.

Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

3.7 Ers y Gyllideb Atodol Gyntaf mae'r llinell sylfaen a glustnodwyd ar gyfer cyfalaf trafodiadau ariannol wedi cynyddu £32,022k yn cynnwys:

- Tynnu cyllid o £50,000k i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru; a
- Gostyngiad o £(17,978)k oherwydd symiau canlyniadol Barnett negyddol a ddisgwylir o Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU ym mis Chwefror 2022.

Tabl 3.5 – Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru

| CYFANSWM DYRANIADAU MEG 2021-22 yn ôl y GYLLIDEB ATODOL | | | | | | | | | | |
|--|-------------------|----------------------|--------------------------|---------------------|------------------------------|-------------------------|------------------|------------------|-----------------------|------------------------------|
| £000oedd | | | | | | | | | | |
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | Adnoddau | | | Cyfalaf | | | AME | | | CYFANSWM DYRANIAD MEG |
| | Cyllidol | Anghyllid -ol | Adnoddau Cyfanswm | Cyffred-inol | Trafod-iadau ariannol | Cyfanswm cyfalaf | Adnoddau | Cyfalaf | AME Cyfan-sw m | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 9,771,781 | 243,137 | 10,014,918 | 521,727 | 0 | 521,727 | 437,407 | 0 | 437,407 | 10,974,052 |
| Cyllid a Llywodraeth Leol | 5,044,326 | 212 | 5,044,538 | 349,424 | -20 | 349,404 | 721,500 | 0 | 721,500 | 6,115,442 |
| Y Gymraeg ac Addysg | 1,950,315 | 498,702 | 2,449,017 | 345,808 | 827 | 346,635 | -143,393 | 1,030,796 | 887,403 | 3,683,055 |
| Y Newid yn yr Hinsawdd | 978,907 | 264,121 | 1,243,028 | 1,497,352 | 29,502 | 1,526,854 | 11,725 | 0 | 11,725 | 2,781,607 |
| Yr Economi | 556,569 | 11,598 | 568,167 | 152,703 | -14,197 | 138,506 | 61,525 | 0 | 61,525 | 768,198 |
| Materion Gwledig | 337,996 | 9,354 | 347,350 | 19,606 | 0 | 19,606 | 0 | 0 | 0 | 366,956 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 121,827 | 149 | 121,976 | 18,547 | 5,000 | 23,547 | 26,946 | 0 | 26,946 | 172,469 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 323,675 | 16,020 | 339,695 | 12,597 | 0 | 12,597 | 3,000 | 0 | 3,000 | 355,292 |
| CYFANSWM Y DYRANIADAU I MEGS LLYWODRAETH CYMRU | 19,085,396 | 1,043,293 | 20,128,689 | 2,917,764 | 21,112 | 2,938,876 | 1,118,710 | 1,030,796 | 2,149,506 | 25,217,071 |

4. Trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion

4.1 Mae trosglwyddiadau lluosog gwerth cyfanswm o £50,488k wedi digwydd rhwng MEGs yn y gyllideb atodol hon. Ceir gwybodaeth am y trosglwyddiadau o £1,000k ac yn uwch isod:

Adnoddau Cyllidol

4.2 Cafwyd trosglwyddiadau adnoddau cyllidol gwerth cyfanswm o £26,419k ac mae'r rhain yn cynnwys:

- £7,220k a drosglwyddwyd oddi wrth MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i MEG Cyllid a Llywodraeth Leol:
 - £3,720k mewn perthynas ag ailddyrrannu mentrau'r gyllideb gofal plant i gefnogi gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae; a
 - £3,500k mewn perthynas â dyraniadau grant dangosol;
- £1,398k a drosglwyddwyd oddi wrth MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i MEG Addysg a'r Gymraeg mewn perthynas ag ehangiad meddygol Gogledd a Gorllewin Cymru;
- £3,700k a drosglwyddwyd oddi wrth MEG Newid yn yr Hinsawdd i MEG Addysg a'r Gymraeg mewn perthynas ag atal digartrefedd, nodi ac ymyrryd yn gynnar.
- £2,842k a drosglwyddwyd oddi wrth MEG Newid yn yr Hinsawdd i MEG yr Economi mewn perthynas â'r gyllideb rheoli a datblygu ar gyfer Ystad Sain Tathan; a
- £1,000k a drosglwyddwyd oddi wrth MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i MEG Cyfiawnder Cymdeithasol ar gyfer caffael ymyrraeth cynhwysiant digidol yn y dyfodol.

Cyfalaf Cyffredinol

4.3 Cafwyd trosglwyddiadau cyfalaf gwerth cyfanswm o £24,069k ac mae'r rhain yn cynnwys:

- £14,760k a drosglwyddwyd i MEG Newid yn yr Hinsawdd mewn perthynas â newidiadau mewn cyfrifoldebau gweinidogol, yn cynnwys:
 - £10,560k oddi wrth MEG Cyllid a Llywodraeth Leol; a
 - £4,200k oddi wrth MEG yr Economi;
- £5,051k a drosglwyddwyd oddi wrth MEG Cyllid a Llywodraeth Leol i MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â Buddsoddi i Arbed;
- £2,000k a drosglwyddwyd oddi wrth MEG Newid yn yr Hinsawdd i MEG yr Economi mewn perthynas â'r gyllideb rheoli a datblygu ar gyfer Ystad Sain Tathan; a
- £1,814k a drosglwyddwyd oddi wrth MEG Newid yn yr Hinsawdd i MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â'r Gronfa Gofal Canolraddol.

5. Trosglwyddiadau o fewn Portffolios y Gweinidogion

5.1 Yn ogystal â'r trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion a nodir yn adran 4, mae nifer o drosglwyddiadau rhwng sawl BEL o fewn yr un portffolios ac mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y Tablau BEL cyhoeddedig. Mae'r rhain yn gyffredinol yn weinyddol eu natur ac nid oes ganddynt unrhyw effaith net ar gyfansymiau'r MEG unigol. Ceir gwybodaeth am y trosglwyddiadau o £1,000k ac yn uwch isod.

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

5.2 Cafwyd trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £25,569k rhwng BELs o fewn MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn gryno, mae'r trosglwyddiadau hyn:

- yn alinio dyraniadau i ariannu ymrwymadau penodol; a
- yn ailddosbarthu'r cyllid COVID-19 a ddyrannwyd yn wreiddiol i BEL 'Dyraniad CRAIDD y GIG'.

Cyllid a Llywodraeth Leol

5.3 Cafwyd trosglwyddiadau adnoddau a chyfalaf lluosog gwerth cyfanswm o £3,200k rhwng BELs o fewn MEG Cyllid a Llywodraeth Leol. Yr un mwyaf sylweddol o'r rhain yw:

- Adnodd o £2,375k a drosglwyddwyd o Ardrethi Annomestig – Rhyddhad Ardrethi i Gymorth Ariannol Brys mewn perthynas â chyllid adfer Llywodraeth Leol ar gyfer llifogydd mis Chwefror 2020.

Y Gymraeg ac Addysg

5.4 Cafwyd trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £181k a throsglwyddiadau cyfalaf gwerth cyfanswm o £17,410k rhwng BELs o fewn MEG y Gymraeg ac Addysg.

- Trosglwyddwyd cyfalaf o £10,000k oddi wrth Seilwaith Addysg i Ddarpariaeth Addysg Bellach yn ymwneud â'r cyllid cynnal a chadw ac offer wedi'i dargedu ar gyfer colegau addysg bellach yng Nghymru; a

- Cyfalaf o £7,410k a drosglwyddwyd oddi wrth Seilwaith Addysg i BEL newydd Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg i ymestyn Trwydded Microsoft Genedlaethol Hwb.

Y Newid yn yr Hinsawdd

5.5 Cafwyd trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £9,213k a throsglwyddiadau cyfalaf gwerth cyfanswm o £89,400k rhwng BELs yn MEG y Newid yn yr Hinsawdd.

Adnoddau:

- Mae £7,500k wedi'i drosglwyddo o BELs lluosog i Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael â phwysau cyllidebol. Y mwyaf sylweddol o'r trosglwyddiadau hyn oedd:
 - £1,774k o Alluogi Adnoddau Naturiol;
 - £1,676k o Ymbelydredd ac Atal Llygredd;
 - £1,535k o Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol; a
 - £1,314k o Ynni Glân;
- Mae £1,499k wedi'i drosglwyddo o Wariant Cynllunio a Rheoleiddio i BEL newydd Penderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd, Cymru.

Cyfalaf:

- Mae cyfalaf o £50,000k wedi'i drosglwyddo o'r Grant Tai Cymdeithasol i'r BEL Datgarboneiddio Preswyl ac Ansawdd newydd mewn perthynas â'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio;
- Mae cyfalaf o £28,000k wedi'i drosglwyddo o Seilwaith Trafnidiaeth Genedlaethol i Weithrediadau'r Rhwydwaith mewn perthynas ag ailflaenoriaethu cyllidebau;
- Mae cyfalaf o £5,600k wedi'i drosglwyddo o Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol i Reoli Perygl Llifogydd a Refeniw Dŵr mewn perthynas â diogelwch Tomenni Glo;
- Mae cyfalaf trafodion ariannol gwerth £2,800k wedi'i drosglwyddo o Ddiogelwch Adeiladau i Adfywio mewn perthynas â'r Prosiectau Trawsnewid Trefi;

- Cyfalaf o £1,500k a drosglwyddwyd o BEL Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol i Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael â phwysau cyllidebol; a
- £1,500k o gyfalaf trafodion ariannol o Deithio Cynaliadwy a Llesol i Ddatblygu Seilwaith Strategol.

Yr Economi

5.6 Cafwyd trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £1,938k a throsglwyddiadau cyfalaf gwerth cyfanswm o £10,833k rhwng BELs yn MEG yr Economi.

Adnoddau:

- £1,000k o Gymunedau am Waith i Gymru Greadigol.

Cyfalaf:

- Trosglwyddwyd tanwariant o £4,000k o Dasglu'r Cymoedd i Chwaraeon Cymru i gefnogi rhaglenni chwaraeon;
- Mae £6,683k wedi'i drosglwyddo o Dwristiaeth gan gynnwys:
 - £3,585k i Gymru Greadigol i dalu'r gwariant ar brosiectau cyn yr amserlen;
 - £1,350k i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru i'w galluogi i wneud gwaith hanfodol; a
 - £1,200k i Gyrfu Cymru.

Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

5.7 Cafwyd trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £8,048k a throsglwyddiadau cyfalaf gwerth cyfanswm o £5,508k rhwng BELs yn MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu:

Adnoddau:

- £4,653k i Gostau Staff:
 - £3,390k o Gostau TG mewn perthynas â Throsglwyddo Ymgymeriadau TGCh (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE); a
 - £1,263k o Gostau Pontio Canolog yr UE ar gyfer cost y Tîm Partneriaeth Gymdeithasol a Pholisi Masnach.

Cyfalaf:

- £5,508k o wariant gweinyddu cyffredinol gan gynnwys:
 - £4,482k i Gostau TG mewn perthynas â dyraniadau cyfalaf a newidiadau mewn dirprwyaethau.

Newidiadau o'r Gyllideb Adnoddau i'r Gyllideb Gyfalaf

5.8 Cafwyd Newidiadau lluosog o'r gyllideb adnoddau i'r gyllideb gyfalaf gwerth cyfanswm o £50,713k o fewn MEGs. Mae'r manylion fel a ganlyn:

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - £45,275k mewn perthynas ag ailddosbarthu cyllidebau ymchwil a datblygu;
- Cyllid a Llywodraeth Leol - £846k mewn perthynas â Buddsoddi i Arbed.
- Yr Economi - £4,000k mewn perthynas â Busnes Cymru ac Arloesi mewn Busnes; a
- Cyfiawnder Cymdeithasol - £592k mewn perthynas â Datblygu Rhyngwladol.

Newidiadau o'r Gyllideb Gyfalaf i'r Gyllideb Adnoddau

5.9 Cafwyd newidiadau lluosog o'r gyllideb gyfalaf i'r gyllideb adnoddau gwerth cyfanswm o £43,327k o fewn MEGs. Mae'r manylion fel a ganlyn:

- Y Newid yn yr Hinsawdd - 42,735k yn cynnwys:
 - £37,000k mewn perthynas â dyraniadau Tocynnau Teithio Rhatach COVID-19;
 - £3,735k mewn perthynas â Theithio Cynaliadwy a Llesol; a
 - £2,000k o gyfalaf trafodiadau ariannol mewn perthynas â diogelwch tân.
- Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu - £592k mewn perthynas â chostau Gweinyddu Cyffredinol.

6. Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn

6.1 Mae'r gyllideb hon yn cysoni nifer o ddyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac oddi wrthynt. Ceir manylion dyraniadau allweddol ym Mhennod 2 ond mae'r bennod hon yn crynhoi'r holl symudiadau yn ôl MEG ac yn darparu rhestr lawn o'r holl drafodiadau yn nhabl 6.1.

Dyraniadau o Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

6.2 Mae dyraniadau gwerth cyfanswm o £1,315,692k wedi'u gwneud i gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn mewn ymateb i COVID-19. Mae'r dadansoddiad o MEGs fel a ganlyn:

| | |
|--------------------------------------|------------|
| • Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | £ 612,520k |
| • Cyllid a Llywodraeth Leol | £ 333,482k |
| • Y Gymraeg ac Addysg | £ 115,714k |
| • Y Newid yn yr Hinsawdd | £ 75,512k |
| • Yr Economi | £ 153,364k |
| • Materion Gwledig | £ 8,000k |
| • Cyfiawnder Cymdeithasol | £ 15,970k |
| • Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | £ 1,130k |

6.3 Yn ogystal, mae dyraniadau gwerth cyfanswm o £431,269k wedi'u gwneud i bortffolios o gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn. Mae'r dadansoddiad o MEGs fel a ganlyn:

| | |
|--------------------------------------|------------|
| • Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | £ 45,202k |
| • Cyllid a Llywodraeth Leol | £ 185,300k |
| • Y Gymraeg ac Addysg | £ 161,309k |
| • Y Newid yn yr Hinsawdd | £ 8,838k |
| • Materion Gwledig | £ 60k |
| • Cyfiawnder Cymdeithasol | £ 1,860k |
| • Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | £ 28,700k |

Mae £43,327k yn ychwanegol o gyllid adnoddau cyllidol wedi'i ddyrannu i'r MEGs o gronfeydd wrth gefn o ganlyniad i newidiadau lluosog o'r gyllideb gyfalaf i'r gyllideb adnoddau. (Mae manylion yr holl newidiadau cyllidebol MEG i'w cael ym Mhennod 5.)

Trosglwyddiadau i Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

6.4 Mae trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £(104,933)k wedi'u gwneud i gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn. Mae hyn yn cynnwys £(50,713)k yn ymwneud â nifer o newidiadau rhwng cyllidebau adnoddau a chyfalaf. Mae manylion yr holl newidiadau cyllidebol MEG i'w cael ym Mhennod 5

Symudiadau mewn Cronfeydd Adnoddau Anghyllidol Wrth Gefn

6.5 Cafwyd nifer bach o symudiadau sy'n effeithio ar gronfeydd adnoddau anghyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Y canlyniad net yw cynnydd mewn dyraniadau o £80,354k. Mae'r symudiadau MEG fel a ganlyn:

| | |
|--------------------------------------|------------|
| • Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | £ 57,000k |
| • Y Newid yn yr Hinsawdd | £ 25,000k |
| • Y Gymraeg ac Addysg | £ 554k |
| • Materion Gwledig | £ (2,200)k |

Dyraniadau o Gronfeydd Cyfalaf Cyffredinol Wrth Gefn

6.6 Mae dyraniadau gwerth cyfanswm o £82,576k wedi'u gwneud i gronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn mewn ymateb i COVID-19. Mae'r dadansoddiad o MEGs fel a ganlyn:

| | |
|--------------------------------------|-----------|
| • Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | £ 45,000k |
| • Y Gymraeg ac Addysg | £ 17,528k |
| • Y Newid yn yr Hinsawdd | £ 170k |
| • Yr Economi | £ 15,290k |
| • Materion Gwledig | £ 4,000k |
| • Cyfiawnder Cymdeithasol | £ 588k |

6.7 Yn ogystal, gwnaed dyraniadau gwerth cyfanswm o £328,953k i bortffolios o gronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn. Mae'r dadansoddiad o MEGs fel a ganlyn:

| | | |
|--------------------------------------|---|----------|
| • Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | £ | 36,987k |
| • Cyllid a Llywodraeth Leol | £ | 154,568k |
| • Y Gymraeg ac Addysg | £ | 58,500k |
| • Y Newid yn yr Hinsawdd | £ | 67,418k |
| • Yr Economi | £ | 10,000k |
| • Materion Gwledig | £ | 1,000k |
| • Cyfiawnder Cymdeithasol | £ | 480k |

Mae £50,713k yn ychwanegol o gyllid cyfalaf cyffredinol wedi'i ddyrannu i'r MEGs o gronfeydd wrth gefn o ganlyniad i newidiadau lluosog o'r gyllideb adnoddau i'r gyllideb gyfalaf. (Mae manylion yr holl newidiadau cyllidebol MEG i'w cael ym Mhennod 5.)

Trosglwyddiadau i Gronfeydd Cyfalaf Cyffredinol Wrth Gefn

6.8 Mae trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £(41,927)k wedi'u gwneud i gronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn. Mae'r rhain yn cynnwys £(41,327)k yn ymwneud â nifer o newidiadau rhwng cyllidebau cyfalaf ac adnoddau. (Mae manylion yr holl newidiadau cyllidebol MEG i'w cael ym Mhennod 5.)

Dyraniadau o Gronfeydd Cyfalaf Trafodiadau Ariannol Wrth Gefn

6.9 Cafwyd dau drosglwyddiad o'r cronfeydd cyfalaf trafodiadau wrth gefn gwerth cyfanswm o £21,000k. Mae'r dadansoddiad o MEGs fel a ganlyn:

| | | |
|---------------------------|---|---------|
| • Yr Economi | £ | 18,000k |
| • Cyfiawnder Cymdeithasol | £ | 3,000k |

Dyraniadau i Gronfeydd Cyfalaf Trafodiadau Ariannol Wrth Gefn

6.10 Cafwyd trosglwyddiadau lluosog gwerth cyfanswm o £(78,027)k yn ôl i'r cronfeydd cyfalaf trafodiadau wrth gefn. Mae hyn yn cynnwys £(2,000)k yn ymwneud â newid o'r gyllideb gyfalaf i'r gyllideb adnoddau. Mae'r manylion i'w gweld ym Mhennod 5. Mae'r dadansoddiad o MEGs fel a ganlyn:

- Y Gymraeg ac Addysg £ (1,141)k
- Y Newid yn yr Hinsawdd £ (42,808)k
- Yr Economi £ (32,582)k
- Cyfiawnder Cymdeithasol £ (1,496)k

Mae tabl 6.1 isod yn adlewyrchu'r holl symudiadau ar gronfeydd wrth gefn:

Tabl 6.1 - Newidiadau i Gronfeydd wrth gefn 2021-22 ers y Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Dyraniadau o Gronfeydd wrth Gefn sy'n cael eu gwneud yn y Gyllideb Atodol hon

| | £000oedd | | | | | | |
|---|-------------------|----------------------|----------------------|---------------------|------------------------------|------------------|------------------|
| | Adnoddau Cyllidol | Adnoddau Anghyllidol | Cyfanswm yr Adnoddau | Cyfalaf Cyffredinol | Cyfalaf Trafodiadau Ariannol | Cyfanswm Cyfalaf | Cyfanswm |
| Cronfeydd Wrth Gefn yn y Gyllideb Atodol Gyntaf | 1,264,917 | 554,431 | 1,819,348 | 114,026 | 67,565 | 181,591 | 2,000,939 |
| Trosglwyddiadau a Symiau Canlyniadol ers y Gyllideb Atodol Gyntaf | 737,762 | 62,530 | 800,292 | (72,112) | (17,978) | (90,090) | 710,202 |
| Addasiadau i Ffynonellau Cyllid | 98,027 | 0 | 98,027 | 0 | 0 | 0 | 98,027 |
| Newid o ran Tynnu Cronfa Wrth Gefn Cymru i Lawr | 0 | 0 | 0 | 0 | 50,000 | 50,000 | 50,000 |
| Newid Adnoddau i Linell Sylfaen Cyfalaf Cyffredinol | (415,422) | 0 | (415,422) | 415,422 | 0 | 415,422 | 0 |
| Gostyngiad mewn Benthyciadau Cyfalaf | 0 | 0 | 0 | (37,000) | 0 | (37,000) | (37,000) |
| Cronfeydd Wrth Gefn Diwygiedig | 1,685,284 | 616,961 | 2,302,245 | 420,336 | 99,587 | 519,923 | 2,822,168 |
| NEWIDIADAU: | | | | | | | |
| IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL | | | | | | | |
| Dyraniadau COVID-19: | 612,520 | 0 | 612,520 | 45,000 | 0 | 45,000 | 657,520 |
| Dyraniadau Craidd y GIG - Dyraniadau COVID | 499,500 | 0 | 499,500 | 0 | 0 | 0 | 499,500 |
| Cymru Iachach - Y Gronfa Datblygiad Plant | 4,500 | 0 | 4,500 | 0 | 0 | 0 | 4,500 |
| Cyllidebau eraill y GIG - Dyraniadau COVID Penodedig | 6,000 | 0 | 6,000 | 0 | 0 | 0 | 6,000 |
| Diogelu Iechyd wedi'i Dargedu ac Imiwneiddio - Rhaglen frechu estynedig mewn perthynas â dyraniadau COVID | 5,500 | 0 | 5,500 | 0 | 0 | 0 | 5,500 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy - Cronfa Gymorth ar wahân ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | 40,000 | 0 | 40,000 | 0 | 0 | 0 | 40,000 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy - Pwysau'r gaeaf o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol | 42,720 | 0 | 42,720 | 0 | 0 | 0 | 42,720 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy - Cronfa Adfer Gwasanaethau Cymdeithasol | 8,000 | 0 | 8,000 | 0 | 0 | 0 | 8,000 |

| | | | | | | | |
|---|-------------|---------------|---------------|---------------|----------|---------------|----------------|
| Cymorth ar gyfer Gofal Plant a Chwarae - Cyllid adfer ar gyfer mentrau i gefnogi gwasanaethau a darpariaeth blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae | 6,300 | 0 | 6,300 | 0 | 0 | 0 | 6,300 |
| Dyraniadau Craidd y GIG - Adferiad GIG Cymru | 0 | 0 | 0 | 40,000 | 0 | 40,000 | 40,000 |
| Cymorth ar gyfer Gofal Plant a Chwarae - Cymorth i Blant a Chwarae | 0 | 0 | 0 | 5,000 | 0 | 5,000 | 5,000 |
| Eraill: | (73) | 57,000 | 56,927 | 82,262 | 0 | 82,262 | 139,189 |
| Dyraniadau Craidd y GIG - cronfeydd LIBOR gan Drysorlys Ei Mawrhydi | 24 | 0 | 24 | 0 | 0 | 0 | 24 |
| Dyraniadau Craidd y GIG - Trosglwyddiad oddi wrth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas ag adsefydlwyr o Affganistan mewn llety pontio; | 400 | 0 | 400 | 0 | 0 | 0 | 400 |
| Dyraniadau Craidd y GIG - Gofyniad ychwanegol nad yw'n arian parod ar gyfer y GIG | 0 | 57,000 | 57,000 | 0 | 0 | 0 | 57,000 |
| Dyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG - Trosglwyddiad oddi wrth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â thaliadau HIV Gwaed Heintiedig | 508 | 0 | 508 | 0 | 0 | 0 | 508 |
| Cyllidebau eraill y GIG - Trosglwyddiad oddi wrth y Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r Gordal Iechyd Mewnfudo | 37,976 | 0 | 37,976 | 0 | 0 | 0 | 37,976 |
| Cyllidebau eraill y GIG - Trosglwyddiad oddi wrth Drysorlys Ei Mawrhydi mewn perthynas â'r Gordal Iechyd Mewnfudo | 5,150 | 0 | 5,150 | 0 | 0 | 0 | 5,150 |
| Cyllidebau eraill y GIG - Trosglwyddiad oddi wrth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â Diwygio Tystysgrifau Marwolaeth a Chyflwyno Archwilwyr Meddygol | 775 | 0 | 775 | 0 | 0 | 0 | 775 |
| Iechyd Meddwl - Trosglwyddiad oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau mewn perthynas â'r Cynllun Cymorth a Lleoliad i Unigolion | 369 | 0 | 369 | 0 | 0 | 0 | 369 |
| Ymchwil a Datblygu - Aiddosbarthu cyllidebau Ymchwil a Datblygu | (45,275) | 0 | (45,275) | 45,275 | 0 | 45,275 | 0 |
| Dyraniadau Craidd y GIG - Gweithdy Ambiwlans Merthyr a Phlas Gororau yn Wrecsam | 0 | 0 | 0 | 5,264 | 0 | 5,264 | 5,264 |
| Dyraniadau Craidd y GIG - Prynu Matrix House | 0 | 0 | 0 | 5,905 | 0 | 5,905 | 5,905 |

| | | | | | | | |
|---|----------------|---------------|----------------|----------------|----------|----------------|----------------|
| Dyraniadau Craidd y GIG - Offer Meddygol a TG | 0 | 0 | 0 | 10,818 | 0 | 10,818 | 10,818 |
| Dyraniadau Craidd y GIG - Theatrau y gellir eu datod ar gyfer Bwrdd Iechyd Hywel Dda | 0 | 0 | 0 | 15,000 | 0 | 15,000 | 15,000 |
| IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL | 612,447 | 57,000 | 669,447 | 127,262 | 0 | 127,262 | 796,709 |
| CYLLID A LLYWODRAETH LEOL | | | | | | | |
| Dyraniadau COVID-19: | 333,482 | 0 | 333,482 | 0 | 0 | 0 | 333,482 |
| Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol - Diwygiad i'r setliad Llywodraeth Leol | 50,000 | 0 | 50,000 | 0 | 0 | 0 | 50,000 |
| Cymorth Ariannol Brys - Cymorth ar gyfer Hunanynysu: Ymestyn y cynnig Diogelu a'r Cynllun Cymorth Hunanynysu | 4,000 | 0 | 4,000 | 0 | 0 | 0 | 4,000 |
| Cymorth Ariannol Brys - Ymateb Brys i Ddigartrefedd | 10,000 | 0 | 10,000 | 0 | 0 | 0 | 10,000 |
| Cymorth Ariannol Brys - cymorth i gomisiynwyr lleol ddarparu gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru | 25,500 | 0 | 25,500 | 0 | 0 | 0 | 25,500 |
| Cymorth Ariannol Brys - Y Grant Caledi i Denantiaid | 8,000 | 0 | 8,000 | 0 | 0 | 0 | 8,000 |
| Cymorth Ariannol Brys - Cronfa Galedi Llywodraeth Leol i dalu costau a hawliadau a ddisgwylir am golli incwm | 50,000 | 0 | 50,000 | 0 | 0 | 0 | 50,000 |
| Cymorth Ariannol Brys - Cronfa Gymorth i Aelwydydd - Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf | 61,082 | 0 | 61,082 | 0 | 0 | 0 | 61,082 |
| Cymorth Ariannol Brys - Cronfa Gymorth i Aelwydydd - Hybiau Cymorth COVID Cymunedol | 600 | 0 | 600 | 0 | 0 | 0 | 600 |
| Cymorth Ariannol Brys - Cronfa Gymorth i Aelwydydd - Digartrefedd | 2,000 | 0 | 2,000 | 0 | 0 | 0 | 2,000 |
| Cymorth Ariannol Brys - Gofal Cymdeithasol | 50,000 | 0 | 50,000 | 0 | 0 | 0 | 50,000 |
| Cymorth Ariannol Brys - Y Gronfa Galedi | 46,000 | 0 | 46,000 | 0 | 0 | 0 | 46,000 |
| Cymorth Ariannol Brys – Casglu'r Dreth Gyngor | 19,300 | 0 | 19,300 | 0 | 0 | 0 | 19,300 |
